GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Plant yng Nghymru

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cynnal digwyddiad blynyddol am y tair blynedd diwethaf i ddathlu Hawliau Plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Anelir y digwyddiadau hyn at blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n defnyddio adrannau BIP yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff a gyflogir o fewn BIP.

Ym mis Tachwedd 2008 y cafodd y digwyddiad cyntaf ei gynnal a chynhwysodd asiantaethau eraill fel Achub y Plant a Swyddfa'r Comisiynydd Plant a gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio i weithio gyda'r Prosiect Pyramid. Cafodd y gweithgareddau eu cynnal ledled yr adrannau pediatrig o fewn Ysbyty Plant Cymru a'r Ganolfan Plant am gyfnod pedwar diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn arweiniodd yr Arbenigwyr Chwarae weithgareddau i blant lle buont yn gwneud eitemau fel posteri ar gyfer handlenni drws yn datgan "cnociwch os gwelwch yn dda, peidiwch ag ymyrryd" gan arddangos eu Hawl i Breifatrwydd, yn un enghraifft. Cafwyd ymweliadau gan bobl enwog a gwleidyddion lleol yn ystod y digwyddiad pedwar diwrnod.

Cafodd yr ail ddigwyddiad undydd ei gynnal yn Ysbyty Plant Cymru hefyd ym mis Tachwedd 2009 a oedd yn cyd-ddigwydd ag ugeinfed pen-blwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig. Dyluniodd y plant ynys ar gyfer y digwyddiad hwn o'r enw'r "Ynys Hawliau" a gafodd ei harddangos yn y Senedd yn ystod y dathliadau a drefnwyd. Hefyd yn ystod digwyddiad 2009, lansiodd Achub y Plant eu taflen "Eich Iechyd, Eich Hawliau" y cymerodd plant ran ynddi.

Cafodd y trydydd digwyddiad blynyddol ei gynnal yn Ysgol Erw'r Delyn sy'n ysgol i blant 3 - 19 oed ag anableddau. Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â staff o ddisgyblaethau iechyd fel nyrsys, therapyddion llefaredd ac iaith, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol ac eraill. Cafodd y digwyddiad ei groesawu gan yr ysgol gyfan a chymerodd plant o bob grŵp oedran ran mewn gwahanol ddigwyddiadau. Perfformiodd y plant ddramâu am eu profiadau ac am sut maent yn cael eu trin yn ogystal â chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda Mr Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru.

Bu'r Comisiynydd Plant mor garedig â mynychu pob un o'r digwyddiadau a gafodd eu trefnu gan BIP gan godi proffil y nod o hysbysu plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a staff sy'n gweithio yn y sefydliad am Hawliau Plant a'u hawl i gael eu clywed. Cafodd plant a rhieni'r cyfle i siarad â'r Comisiynydd a chodi materion sydd o bryder

iddynt. Un o'r materion a godwyd oedd y ffaith nad oedd bin iechydol yn cael ei ddarparu yn y toiledau ar y ward pediatrig. Cafodd hyn ei gywiro'n rhwydd ond nid oedd staff wedi sylwi.

Mae'r digwyddiad blynyddol yn rhan sefydledig o galendr BIP Caerdydd a'r Fro erbyn hyn; mae hyfforddiant staff am faterion diogelu sy'n ymgorffori hawliau plant yn cael ei gynnal teirgwaith y flwyddyn a bernir ei fod yn hanfodol i staff sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i ddefnyddio hawliau plant yn sylfaen i bob agwedd ar ofal ac wedi cynnig golwg ar sut y bydd yn symud ymlaen â'r gwaith hwn. Mae hyn i'w weld o enedigaeth i 18 mlwydd oed. Enghraifft dda o'r ymrwymiad hwn yw cynnwys adran am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn y cofnod iechyd a gaiff pob plentyn adeg ei eni, sy'n cael ei gadw gan rieni.

Am ragor o fanylion cysylltwch â:
WebbEV@cardiff.ac.uk
Linda.hughes-jones@wales.nhs.uk